# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 5

RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O'R CORFF

*Gorfodi*

### 97 Camau gorfodi gan awdurdodau lleol

(1) Caiff awdurdod lleol—

(a) dwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau yn ei ardal o dan adran 95;

(b) ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throseddau honedig yn ei ardal o dan adran 95;

(c) cymryd unrhyw gamau eraill gyda golwg ar ostwng nifer y troseddau sy'n digwydd o dan adran 95 yn ei ardal.

(2) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) ystyried, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis, i ba raddau y mae'n briodol i'r awdurdod gynnal yn ei ardal raglen o gamau gorfodi mewn perthynas ag adran 95, a

(b) i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, gynnal rhaglen o'r fath.

(3) At ddibenion is-adran (2), mae rhaglen o gamau gorfodi mewn perthynas ag adran 95 yn rhaglen sy'n golygu cymryd pob un neu unrhyw un neu ragor o'r camau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

(4) At ddiben arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (2), rhaid i awdurdod lleol gynnal unrhyw ymgynghoriad y mae'n ystyried ei fod yn briodol â phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 97 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 97 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I2** A. 97 mewn grym ar 1.2.2018 gan O.S. 2018/1, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 97 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2